

# RHYDDFRYDIAETH : GWEITHGAREDDAU

## Cymhwyso syniadau rhyddfrydol (AO1, AO2)

Isod, nodir cyfres o sefyllfaoedd gwleidyddol gwahanol. Darllenwch y disgrifiadau yn ofalus ac yna ystyriwch sut y byddai rhyddfrydwyr yn dewis ymateb yn y sefyllfaoedd gwahanol hyn. Cofiwch hefyd ystyried os byddai Rhyddfrydwyr Clasurol a Rhyddfrydwyr Modern yn debygol o gytuno neu anghytuno ar sut ddylid ymateb. Nodwch resymau i egluro eich casgliadau yn y gwahanol sefyllfaoedd a cheisiwch gyfeirio yn ôl at rai o elfennau allweddol rhyddfrydiaeth (unigolyddiaeth, rhyddid, goddefgarwch, cydraddoldeb ayb.) wrth wneud hyn.

Gwladwriaeth sy'n defnyddio'r system dreth fel sail i gasglu arian cyhoeddus er mwyn darparu gwasanaeth gofal iechyd i bawb mewn cymdeithas (h.y. trefn debyg i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn y Deyrnas Unedig).

Llywodraeth sy'n cyflwyno deddfwriaeth er mwyn gwahardd perthynas hoyw.

Llywodraeth sy'n ymateb i gyfnod o ddirwasgiad a diweithdra trwy fuddsoddi arian cyhoeddus mewn prosiectau isadeiledd mawr (e.e. ffyrdd, pontydd ayb.) er mwyn aildanio'r economi.

Llywodraeth sy'n torri yn ôl yn sylweddol ar reolau iechyd a diogelwch y mae disgwyl i gwmnïau preifat ufuddhau iddynt, gan honni eu bod yn amharu ar fusnesau.

Cytundeb rhyngwladol newydd sy'n annog mwy o aiddosbarthu cyfoeth o wladwriaethau cyfoethog y byd datblygedig i wladwriaethau'r byd datblygol.